

Effaith Brexit ar y sector celfyddydau, diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r iaith Gymraeg

Rhagfyr 2018

Cyflwyniad

- 1.** Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnal ymchwiliad byr i effaith Brexit ar ddiwydiannau creadigol, mudiadau diwylliannol a threftadaeth yng Nghymru a'r iaith Gymraeg. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ysgrifenedig rhwng 11 Medi 2018 ac 8 Hydref 2018 a chafwyd 15 o ymatebion. Ar 18 Hydref gwahoddwyd cynrychiolwyr o ddetholiad o sefydliadau a ymatebodd yn ysgrifenedig i fynychu ein cyfarfod Pwyllgor i drafod y pwnc yn fwy manwl.
- 2.** Clywsom hefyd gan yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas AC, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif faterion ac yn gwneud argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Cefndir

- 3.** Mae Cymru'n derbyn arian yr UE ar gyfer ein diwydiannau creadigol, ein celfyddydau, a'n mudiadau diwylliannol a threftadaeth. Mae hefyd yn elwa o raglenni profiad gwaith diwylliannol ac academaidd a rhwydweithiau cyfnewid gwybodaeth. Mae'r diwydiannau creadigol yn elwa o'r farchnad sengl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a symudiad rhydd pobl sy'n caniatáu gweithio a theithio heb fisa mewn unrhyw un o'r Aelod-wladwriaethau.
- 4.** Gall mecanweithiau cefnogi eraill yr UE, megis taliadau cymorth amaethyddol a chefn gwlad, chwarae rhan bwysig hefyd wrth gefnogi'r iaith



Gymraeg yn anuniongyrchol, o ystyried ei gryfder mewn llawer o ardaloedd gwledig yng Nghymru.

Mae cyllid uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cefnogi'r sectorau celfyddydau a threftadaeth a diwydiannau creadigol

5. Clywodd y Pwyllgor nifer o enghreifftiau o'r hwb i ddiwydiannau creadigol o arian yr UE. Y ffynonellau ariannu a nodir fwyaf aml yw: Ewrop Greadigol, Horizon 2020, Erasmus + a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Nodwyd hefyd fod y cyllid ar gyfer ardaloedd gwledig o'r Gronfa Datblygu Gwledig (taliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin Cymru) yn hanfodol i ardaloedd sy'n siarad Gymraeg.

6. Mae'n amhosib dweud yn sicr faint o arian yr UE y mae'r sectorau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn ei dderbyn ar hyn o bryd. Ceir sawl rheswm dros hyn. Er enghraifft, nid yw llawer o ffrydiau ariannu yn canolbwyntio ar y sectorau hyn yn unig, ond maent yn eu cefnogi mewn modd anuniongyrchol. Er enghraifft, mae Prosiect Twristiaeth Treftadaeth Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyllid trwy gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sydd wedi'i gynllunio i gefnogi twf economaidd a swyddi. Fodd bynnag, mae rhai cyrff wedi amcangyfrif faint o arian yr UE sy'n mynd i sectorau penodol yng Nghymru:

- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi amcangyfrif bod sefydliadau'n ymwneud â'r celfyddydau yng Nghymru wedi derbyn £18 miliwn o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop rhwng 2006 a 2017 a £6 miliwn ar gyfer prosiectau celf gwledig o'r Cynllun Datblygu Gwledig rhwng 2007-16.¹
- Dywed y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol fod y sector wedi derbyn o leiaf £74 miliwn o arian yr UE rhwng 2007-16.
- Mae Sefydliad Ffilm Prydain wedi cyfrifo bod prosiectau diwydiannau sgrin Cymru wedi derbyn £24.9 miliwn o arian yr UE rhwng 2007-17: 10% o gyfanswm y DU.

7. Mae enghreifftiau pellach o'r UE yn cyllido prosiectau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn cael eu harchwilio isod.

¹ Arts Council for Wales, Assessing the EU's contribution to the arts in Wales since 2007, August 2017

8. Mae Cyllid Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd wedi'i gynllunio i greu amgylchedd a fydd yn cefnogi twf economaidd a swyddi.² Mae'n cynnwys Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Clywodd y Pwyllgor enghreifftiau o brosiectau a gefnogir gan y cronfeydd hyn, megis £1.7 miliwn ar gyfer Canolfan Gelfyddydau Galeri yng Nghaernarfon a'r £15 miliwn ar gyfer canolfan gelfyddydau Pontio, Prifysgol Bangor. Derbyniodd rhaglen Cyrraedd y Nod gyllid ESF, a dosbarthodd Cyngor Celfyddydau Cymru dros £10 miliwn i 73 o brosiectau, yn cynnwys dros 9,000 o bobl ifanc.

9. Cymerodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ran yn ogystal mewn rhwydwaith a ariennir gan ESF sef "Network for Digital Methods in the Arts and Humanities".³

10. Ewrop Greadigol yw rhaglen fframwaith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cefnogaeth i'r sectorau diwylliannol a chlywedol⁴. Galwodd Llenyddiaeth Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru ar Lywodraeth Cymru i barhau i fod yn rhan o Ewrop Greadigol os bydd y DU yn ymadael. Ysgrifennodd Llenyddiaeth Cymru:

"Given the devolved nature of culture and education matters, WG should and could do this even if the UK government does not wish to continue full participation in these programmes ... if the UK wishes to leave Creative Europe as an active participant, Wales could remain, but this might have costly financial implications. Such scenarios should be considered carefully by WG."⁵

11. Mae adroddiad Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol yn nodi bod y DU yn derbyn mwy o arian na bron unrhyw wlad arall trwy Ewrop Greadigol. Mae'r effaith wedi bod yn drawsnewidiol mewn sawl rhan o wledydd a rhanbarthau'r DU.⁶

12. Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg nifer o enghreifftiau o fanteision cyllid yr UE i Gymru. Er enghraifft, mae'r sector ôl-16 wedi derbyn cyllid gan Erasmus+ i:

"geflogi cyfnewidfa myfyrwyr a staff gyda sefydliadau addysgol tramor. Ers 2014, dyfarnwyd dros £40 miliwn i sefydliadau yng Nghymru trwy Erasmws+ a manteisiodd dros 7,000 o unigolion ar y gefnogaeth. Un enghraifft benodol yw llwyddiant ColegauCymru i ddenu cyllid Erasmws+ er mwyn galluogi ymarferwyr o'r sector ôl-16 yng Nghymru i

² https://ec.europa.eu/info/funding-tenders/funding-opportunities/funding-programmes/overview-funding-programmes/european-structural-and-investment-funds_en

³ Tystiolaeth ysgrifenedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru

⁴ https://ec.europa.eu/programmes/creative-europe/about_en

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Llenyddiaeth Cymru

⁶ Dyfynnwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig TAC

deithio i Wlad y Basg a Chatalwnia ac adeiladu dealltwriaeth well o addysg ddwyieithog yn y cyd-destunau hynny.”⁷

13. Dywedodd Cyngor Llyfrau Cymru wrth y Pwyllgor: “cyfoethogwyd llenyddiaeth drwy gydweithredu ar brosiectau drwy gynlluniau ariannu Ewropeaidd megis ‘Llenyddiaeth ar draws ffiniau’, Ewrop Greadigol, Horizon 2020 ac Erasmus”.⁸

14. Ysgrifennodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop:

“Several minority language speaking areas in the UK’s jurisdiction have received significant investment of European Union structural funds which has been partly directed to develop the economy of such areas... European Union funding for areas such as universities (Horizon 2020, Erasmus+) and agriculture also contribute to the economy of minority language speaking regions and therefore indirectly benefit the survival of these languages. There is no indication that our nations would receive similar levels of investment from the UK Government.”⁹

15. Rhoddodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru’r esiampl o Quebec fel rhanbarth o fewn gwladwriaeth fwy sydd wedi gallu prynu i mewn i raglenni Ewropeaidd, fel y gwnaethant gyda Horizon 2020 ac awgrymodd y gellid gwneud mwy i archwilio’r opsiwn hwn i Gymru. Fe wnaethon nhw ysgrifennu:

“We continue to argue the case for continued participation in EU transnational programmes such as Creative Europe or Erasmus+, and consider that participation in these programmes post Brexit should be considered at a regional level (i.e. Wales) if the UK level is not a viable option.”¹⁰

16. Rhoddodd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru enghraifft o’r modd y mae cyllid Ewropeaidd wedi galluogi iddynt ffynnu a’r angen i barhau i fod yn rhan o raglenni Ewropeaidd, sy’n nodweddiadol o’r ymatebion a dderbyniodd y Pwyllgor:

“Un o’r ffyrdd allweddol y mae cwmnïau fel CDCCymru wedi llwyddo i greu a datblygu cysylltiadau yw drwy gynlluniau a ariennir gan Ewrop, megis Creative Europe, Horizons 2020, Erasmus+, Tandem a llawer mwy. Mae’r cynlluniau hyn wedi galluogi sector celfyddydol a

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiynydd y Gymraeg

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Llyfrau Cymru

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Rhwydwaith Cydraddoldeb Iaith Ewropeaidd

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

diwylliannol Cymru i greu prosiectau artistig nodedig ac uchelgeisiol, ymgysylltu â'r byd ehangach, allforio a chynhyrchu incwm.

Gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru yn parhau i gael eu cynnwys mewn cynlluniau mawr a ariennir gan yr UE, gan gynnwys dylanwadu ar ddatblygiad ac esblygiad rhaglenni o'r fath yn y dyfodol. Gan ystyried natur ddatganoledig materion diwylliannol ac addysgol, gallai Llywodraeth Cymru wneud hyn, hyd yn oed os nad yw Llywodraeth y DU yn dymuno parhau i gymryd rhan lawn mewn rhaglenni o'r fath.”¹¹

17. Bu'r Pwyllgor yn archwilio'r cyfleoedd ariannu at y dyfodol ar gyfer y sectorau a'r sefydliadau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Yn 2017, ymrwymodd Maniffesto'r Blaid Geidwadol i gyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i ddisodli arian yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer rhannau tlotaf y DU a lleihau anghydraddoldebau ar draws y pedair gwlad. Eglurodd y Gweinidog, pe bai'r arian hwn yn cael ei drosglwyddo i Gymru, byddai elfen ariannu'r celfyddydau yn cael ei weinyddu gan gorff newydd o'r enw Cymru Greadigol.¹²

Llywodraeth Cymru

18. Mae sefyllfa Llywodraeth Cymru wedi'i nodi yn eu papur polisi Diogelu Dyfodol Cymru:

“Yn ystod ymgyrch y refferendwm, sicrhawyd pleidleiswyr na fyddai Cymru ar ei cholled wrth ymadael â'r UE, ac mae'n hanfodol anrhydeddu'r addewid hwn... Mae nifer o raglenni Ewropeaidd llai yn ysgogi buddsoddiad sylweddol yng Nghymru, ac rydym yn credu'n gryf y dylai Cymru barhau i fanteisio ar fynediad iddynt o'r tu allan i'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys: Horizon 2020, ERASMUS+, Ewrop Greadigol a'r Rhaglen Cymru-Iwerddon.”¹³

19. Yn ystod y cyfarfod, esboniodd swyddogion fod trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â pharhau i fod yn aelodau o'r rhaglenni hyn:

“The Cabinet Secretary for Finance will be meeting with his opposite numbers to discuss the future funding programmes, to influence the UK Government's position on those. There is some common ground between Governments on continued access to these programmes ... the

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

¹² Pwllgor Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018 para 34

¹³ [Brexit: Diogelu dyfodol Cymru](#)

negotiations on the future relationships haven't really started in earnest, so it remains to be seen what the proposition is, but we continue to press for access to those programmes.”¹⁴

Ein barn ni

Ar ôl gadael yr UE, mae'n rhaid i Gymru barhau i dderbyn yr un lefel o gyllid y byddai wedi ei dderbyn pe bai'r DU wedi aros yn yr UE.

Mae cyllid yr UE wedi hybu ein sectorau celfyddydau a threftadaeth a'r diwydiannau creadigol. Gellir gweld tystiolaeth o'r buddsoddiad hwn ledled y wlad. Mae'r ansicrwydd presennol ynghylch cyllid yn y dyfodol yn niweidiol i'n diwydiannau creadigol yn arbennig ac mae mwy o sicrwydd ynghlŷn â'r cyllid fydd ar gael ar ôl i ni adael yn hanfodol.

Mae Maniffesto Llywodraeth y DU ar gyfer 2017 wedi ymrwymo i sefydlu olynydd domestig i Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd i leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ar draws ein pedair gwlad trwy "Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU". Ond hyd yn hyn ni fu llawer o fanylion ynghylch sut y bydd y gronfa newydd yn gweithio. Mae'n bwysig er mwyn cynllunio at y dyfodol fod y blaenoriaethau a'r ymrwymadau ar gyfer y gronfa hon yn cael eu cytuno cyn gynted ag y bo modd.

Dangosodd y dystiolaeth ei bod yn hollbwysig ar gyfer ein sectorau celfyddydol a threftadaeth a'n diwydiannau creadigol i Gymru barhau i gymryd rhan yn Horizon 2020, ERASMUS + ac European Creative. Mae hyn yn ymarferol oherwydd eu bod yn agored i aelod-wladwriaethau nad ydynt yn Aelodau. Clywsom am yr enghraifft o Quebec yn cymryd rhan yn Horizon 2020 fel rhanbarth o fewn cenedl. Credwn y dylai'r opsiwn hwn gael ei gymryd gan Lywodraeth Cymru pe bai'r DU yn penderfynu tynnu'n ôl o'r rhaglen.

Bydd parhau i gymryd rhan yn y cynlluniau hyn yn galluogi ein diwydiannau creadigol i gydweithio ar brosiectau a chystadlu am fusnes ar raddfa ryngwladol. Bydd hefyd yn caniatáu i Gymru barhau i godi ei broffil ar y llwyfan rhyngwladol, sydd mor bwysig i'r diwydiannau creadigol sy'n cystadlu'n fyd-eang. Nid nawr yw'r amser i edrych tuag at i mewn.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i lobïo Llywodraeth y DU i barhau i fod yn rhan o Ewrop Greadigol, Horizon 2020 ac Erasmus + ar ôl i ni adael yr UE. Os nad yw hyn yn bosibl yna dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen

¹⁴ Pwllgor Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018 para 29

gyda'r opsiwn o aelodaeth gan ddefnyddio'r cynsail a osodwyd gan Quebec wrth gymryd rhan yn Horizon 2020.

Mynediad at weithwyr medrus a rhyddid symud i berfformwyr

20. Roedd nifer o'r sefydliadau a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn pryderu y gallai terfynu'r rhyddid symud i weithwyr gyfyngu ar eu potensial i ddenu a chadw'r dalent gorau o Ewrop.

21. Er enghraifft, ysgrifennodd Equity mai perfformwyr yw rhai o'r bobl fwyaf symudol yn yr economi.¹⁵ Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wrthym fod Ewrop yn ffynhonnell dda o dalent sy'n hanfodol i lwyddiant y sector.¹⁶ Amlygwyd graddfa'r defnydd o dalent o'r UE gan Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru sy'n recriwtio hyd at 50% o'u dawnswyr o Ewrop, roedden nhw'n dweud fod y gymysgedd hon yn hanfodol ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith.¹⁷ Yn yr un modd, dywedodd Sinfonia Cymru fod 20% o'u cerddorion yn dod o'r UE, ac mae Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain yn nodi bod 80% o'u haelodau'n dod o'r UE.¹⁸

22. Gall cyfyngu ar y rhyddid i symud gael effaith o ran colli arbenigedd ac addysg greadigol, yn ogystal ag elw net busnesau creadigol. Bydd cost gwneud cais am fisa gweithwyr yn ychwanegu at gostau cwmnïau bach. Dywedodd Ffilm Cymru wrth y Pwyllgor bod y sector creadigol yn cynnwys 95% o weithwyr llawrydd a busnesau bach a chanolig ac nad oes ganddynt y gallu i addasu eu harferion busnes yn sydyn i'r farchnad ôl-Brexit.¹⁹

23. Clywodd y Pwyllgor os bydd hi'n ofynnol i fusnesau bach a chanolig gael Trwydded Nawdd Cyflogaeth yn y dyfodol, mae'r broses hon yn cynnwys nifer o rwystrau biwrocraidd ac mae'n cymryd amser ac arian i'w sefydlu. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn rhestru "galwedigaethau prin" ac mae artistiaid perfformio wedi'u cynnwys ar y rhestr honno. Ar hyn o bryd, gellir llenwi'r swyddi hyn gan bobl o unrhyw genedligrwydd o dan gynllun fisa Haen 2 Llywodraeth y DU. Clywodd y Pwyllgor awgrymiadau y dylid archwilio cynllun tebyg i fisa trac

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Equity

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Sinfonia Cymru

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Ffilm Cymru

cyflym ar gyfer artistiaid perfformio os bydd rhyddid i symud llafur yn cael ei ddiddymu.²⁰

24. Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wrth y Pwyllgor bod gweithwyr creadigol yn cael eu cyflogi yn bennaf ar contractau tymor byr neu annodweddiadol. Roedden nhw'n galw am fisa tymor byr i artistiaid allu perfformio o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn gyffredinol, ond hefyd ar gyfer artistiaid sy'n ymweld â'r DU.²¹ Maent yn rhybuddio bod contractau cyflogaeth nodweddiadol yn y celfyddydau perfformio yn annhebygol o gwrdd â'r trothwy isafswm enillion, sef £30,000²². Am y rhesymau hyn, ac oherwydd bod contractau'n cael eu trefnu ar fyr rybudd, efallai na fydd yr opsiwn a awgrymir gan Lywodraeth Cymru o ryddid symud i weithwyr sydd â chynnig swydd yn datrys y problemau hyn.

Llywodraeth Cymru

25. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ei fod yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau gweithwyr Ewropeaidd i'n heconomi. Yn ei bapur polisi "Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl"²³, mae'n nodi:

"Hefyd mae gwladolion yr UE yn gwneud cyfraniad pwysig i'n diwydiannau creadigol ac i fywyd diwylliannol Cymru... Mae'n safbwynt polisi ni yn dweud y dylai mudo i'r DU yn y dyfodol fod yn gysylltiedig â chyflogaeth – dylai'r rhai sydd am ddod i'r DU naill ai fod â swydd, neu fedru dod o hyd i un yn gyflym."

26. Roedd y papur yn amlygu'r angen i sicrhau bod unrhyw system fewnfudo at y dyfodol yn fwy hygyrch i fusnesau bach a chanolig, gan na fyddai gan fusnes newydd systemau adnoddau dynol (AD) a pholisïau cadarn mewn lle o reidrwydd i ymgeisio ar gyfer (neu gynnal) trwydded nawdd. Aeth ymlaen i nodi pe byddai system yn y dyfodol yn seiliedig ar y system Haen 2 (Gweithiwr Medrus) presennol:

"credwn yn gryf bod rhaid i'r rheolaethau fod yn gymesur, wedi'u llunio i gefnogi anghenion ein heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus – y perygl yw y byddant, yn hytrach, yn faich ychwanegol ac yn rhwystr rhag twf economaidd a chydlyniant cymdeithasol."

27. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

²¹ Pwllgor Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018 para 198

²² www.gov.uk/tier-2-general/eligibility

²³ [Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl](#)

“Yn amlwg, lle mae yna lafurlu wedi bod yn symud ar draws Ewrop mewn meysydd celfyddydol ac mewn meysydd yn ymwneud â'r cyfryngau, mae'n bwysig ein bod ni'n gallu cadw'r symud yna i ddigwydd. Mae cyd-gynyrchiadau gyda gweddill Ewrop wedi bod yn rhan hanfodol o weithgaredd BBC Cymru, S4C a'r holl gynhyrchwyr annibynnol, ac mae'n bwysig iawn bod hyn yn parhau.”²⁴

Ein barn ni:

Mae gweithwyr talentog o'r Undeb Ewropeaidd yn darparu cymysgedd hanfodol o sgiliau ar gyfer ein diwydiannau creadigol. Bydd cymryd eu lle gyda thalent o gartref yn cymryd amser. Byddai cyfyngu ar symudiad gweithwyr i Gymru yn colli'r elfen bwysig o drosglwyddo dysg a sgiliau ar gyfer ein gweithwyr creadigol.

Bydd unrhyw gyfyngiadau ar y gallu i gyflogi artistiaid a gweithwyr Ewropeaidd yn arwain at gostau ar gyfer ein diwydiannau creadigol. Mae mwyafrif y cyflogwyr yn y sector hwn yn fusnesau bach a chanolig a allai gael trafferth i ymdopi gyda baich biwrocraidaidd ychwanegol o gofrestru a gweinyddu cynlluniau fisa.

Mae natur cytundebau cyflogaeth yn y sector celfyddydau yn golygu na fyddant o bosibl yn gymwys ar gyfer y trothwy enillion isaf sy'n ofynnol dan gynllun fisa Haen 2 Llywodraeth y DU. Bydd rhaid i unrhyw gynigion i ehangu neu adeiladu ar y system hon i ganiatáu rhyddid i symud pobl yn y sector celfyddydau'n gorfod goresgyn natur fyrdymor a byr rybudd y model gyflogaeth yn y celfyddydau perfformio.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i geisio am y trefniadau mwyaf rhydd posibl ar gyfer symudiad gweithwyr sy'n hanfodol ar gyfer cynhyrchiant economaidd a diwylliannol y diwydiant creadigol yng Nghymru.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau na fydd unrhyw drefniadau at y dyfodol ar gyfer galluogi gweithwyr Ewropeaidd i ddod i Gymru ac i'r gwrthwyneb yn ataliol o ran ffactorau ariannol na gweinyddol i gyflogwyr bychain. Dylai'r trefniadau hefyd roi ystyriaeth i'r ffaith fod y sector celfyddydau yn fwy tebygol o gyflogi pobl ar gytundebau gwaith annodweddiadol.

²⁴ Pwllgor Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018 para 81

Colli cyfleoedd i elwa o deithio yn Ewrop

- 28.** Mae sefydliadau'r cyfryngau yn dibynnu ar enillion o gynyrchiadau teithiol yn Ewrop. Heb ryddid i symud nwyddau a phobl, mae cwmnïau teithiol yn wynebu'r baich ariannol a biwrocratig o drefnu fisa ar gyfer perfformwyr a chostau ychwanegol am ddogfennau tollau'n ymwneud â chludo offer.
- 29.** Bydd cyfyngiadau ar ryddid symud hefyd yn lleihau'r incwm o berfformiadau teithiol yn Ewrop y mae llawer o gwmnïau'n dibynnu arno. Mae teithio yn Ewrop yn ddeniadol i gwmnïau yng Nghymru oherwydd ei agosrwydd daearyddol, y diffyg dogfennaeth tollau sydd ei angen a'r ffaith nad yw enillion yn cael eu trethu yn ddwbl oherwydd bod cwmnïau yn cael eu trin fel "Preswlydd Treth" yn Ewrop.²⁵
- 30.** Dywedodd rhanddeiliaid gan gynnwys Sinfonia Cymru wrth y Pwyllgor y byddai unrhyw beth sy'n cyfyngu, gwahardd, neu'n ei gwneud hi'n anoddach i fynd ar daith yn gallu bod yn niweidiol.²⁶
- 31.** Ysgrifennodd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru y byddai cyfyngu ar symudiad nwyddau a phobl yn cyfyngu ar y gallu i gynhyrchu refeniw a denu talent. Nid yn unig y byddai hyn yn effeithio ar eu helw - maent yn ennill rhwng £60,000 a £100,000 mewn ffioedd yn flynyddol - byddai hefyd yn niweidio proffil y cwmni, eu brand ac yn lleihau proffil Cymru dramor, pe na baent yn gallu teithio.
- 32.** Galwodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru am well data ynglŷn ag effaith posibl Brexit "heb fargen" ar sefydliadau'r cyfryngau yng Nghymru. Dywedodd Eluned Haf:

"So, I think we're calling for a data exercise to be carried out. The Arts Council of England have done data to an extent, which has been very valuable. We replicated a similar exercise they did back in 2016. I would like to see that done in a more joined-up way, and not just within Wales, but actually within a UK and a European context, because of the impact on people being able to come and perform in our festivals, and work in our national dance company, who employ 50 per cent of their dancers from the EU."²⁷

²⁵ https://europa.eu/youreurope/citizens/work/taxes/income-taxes-abroad/index_en.htm

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Sinfonia Cymru

²⁷ Pwllgor Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018 para 146

Llywodraeth Cymru

33. Bu Llywodraeth Cymru'n trafod y mater o gynyrchiadau sy'n teithio yn ystod y cyfarfod. Nid oedd y Gweinidog yn ffyddiog y byddai modd goresgyn cyfyngiad posibl i ryddid i symud ar gyfer nwyddau a llafur os nad yw Cymru'n parhau'n rhan o'r Farchnad Sengl. Dywedodd:

“There will be a disincentive for those people because, clearly, they will have to surmount the difficulties that you've outlined, and I don't see that we can avoid those issues. I can't imagine we could establish some sort of agency that would look after all the individual performers that have taken advantage of the open market in artistic activity over the years, or replace the single market with a mechanism that could overcome the kind of bureaucratic interference with people's movement that will be established if we leave the single market.”²⁸

34. Roedd swyddogion yn cytuno er bod cynyrchiadau sy'n teithio'n cael eu cyfrif fel “gweithio dros dro” gan eu bod yn para llai na blwyddyn, ac felly nid ydynt yn dod o dan yr un system fudo, mae materion yn dal i fod angen sylw.²⁹

Ein barn ni

Mae'r gallu i gynhyrchu incwm o gynyrchiadau teithiol yn Ewrop yn rhan hanfodol o fodel busnes ein diwydiant creadigol. Er enghraifft, cynhyrchodd syrcais NoFitState bron i 40% o'i gyfanswm trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf o deithio. Clywsom y byddai unrhyw gyfyngiadau ar deithio yn peryglu hyfywedd cynyrchiadau teithiol megis y Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Cherddorfeydd Prydain.

Er bod teithio yn cael ei ystyried fel “gweithio dros dro” yn hytrach na mewnfudiad, mae yna broblemau sydd angen eu datrys i sicrhau bod rhyddid i fynd â chynyrchiadau teithiol i Ewrop yn cael ei sicrhau. Fel arall, bydd ein diwydiannau creadigol yn dioddef colledion ariannol na ellir eu disodli'n hawdd trwy deithio y tu allan i Ewrop neu drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill.

Dim ond drwy barhau i fod yn rhan o'r farchnad sengl, gyda'r rhyddid i symud nwyddau a llafur y mae hyn yn ei gynnig, y byddai cynyrchiadau o Gymru yn osgoi wynebu gwariant ychwanegol wrth deithio yn Ewrop.

²⁸ Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018 para 102

²⁹ Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018 para 107

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru baratoi gwybodaeth a chyngor i'r diwydiant ar effaith bosibl cyfyngu ar symud nwyddau a gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys "siop un stop" ar gyfer cwmnïau teithiol gyda gwybodaeth am ofynion Ewropeaidd ar gyfer contractau cyflogaeth, fisas, cludiant offer, yswiriant a threthiant.

Mynediad i'r Farchnad Sengl ac un system reoleiddio

35. Mae mynediad i'r Farchnad Sengl yn hanfodol i lwyddiant masnachol diwydiannau creadigol Cymru. Mae mynediad heb dariff yn broffidiol iawn i'n busnesau, mae 45% o allforion gwasanaeth diwydiannau creadigol y DU yn mynd i'r UE.³⁰ Mae cynrychiadau ar y cyd gyda gwledydd yr UE, megis cynrychiadau ffilm, yn galluogi gwaredu tollau mewnforio a threthi ar gyfarpar, yn ogystal â'r cyfle i gael eu dosbarthu fel ffilmiau "cenedlaethol" i gwrdd â chwotâu ar gynrychiadau cartref.

36. Ysgrifennodd Ffilm Cymru bod ffilmiau cymwys yn y DU wedi cynhyrchu 16.4% o gyfanswm y swyddfa docynnau ar gyfer ffilmiau yn 2016, sydd werth £6.5 biliwn.³¹ Mae Cymru yn cyd-gynhyrchu mwy o ffilmiau gyda phartneriaid yn yr UE na gwledydd eraill yn y DU, gan ei adael yn fwy agored i effeithiau Brexit. Am y rheswm hwn, mae Ffilm Cymru wedi galw am wasanaethau clyweledol gael eu cynnwys mewn Cytundeb Masnach Rydd yn y dyfodol gan ei bod wedi ei ddsbarthu fel "eithriad diwylliannol" hyd yma.

Trwyddedu a fframweithiau rheoleiddio cyffredin

37. Mae pob busnes Ewropeaidd yn gweithredu yn yr un system reoleiddiol. Unwaith y byddwn wedi ymadael â'r UE, ni fydd y DU yn gallu dylanwadu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd, ond bydd yn dal i orfod cydymffurfio â nhw i gael mynediad i farchnadoedd Ewropeaidd. Clywodd y Pwyllgor am y problemau posibl y gallai hyn ei achosi i sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yng Nghymru. Galwodd Cyngor Llyfrau Cymru ar Lywodraeth Cymru i ystyried yr effaith ar ddiogelu hawlfraint ac eiddo deallusol o fewn y diwydiant cyhoeddi, a allai, meddai nhw, arwain at gynnydd yn y baich gweinyddol a threthu dwbl³² os nad

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Ffilm Cymru

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Ffilm Cymru, mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys ffilmiau gyda chefnogaeth stiwdio o'r UDA sy'n ffilmio yma, megis Star Wars

³² Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Llyfrau Cymru

yw deddfwriaeth y DU a'r UE yr un fath. Roedden nhw'n galw ar y DU i fabwysiadu unrhyw safonau gan yr EU.

38. Ysgrifennodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC) ei fod yn derbyn deunyddiau printiedig o leoliadau o fewn yr UE i'w hychwanegu at gasgliadau cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae 54% o danysgrifiadau print LIGC yn dod gan gyflenwyr Ewropeaidd... Byddai trethi tollau newydd, costau neu rwystrau mewnforio yn gallu effeithio ar y gallu i gasglu cynnwys perthnasol.³³ Nodwyd hefyd y byddai unrhyw newidiadau i gyfraith hawlfraint yn debygol o osod cyfyngiadau newydd ar ddigido a mynediad at gasgliadau'r Llyfrgell o ganlyniad i gyfreithiau hawlfraint a thariffau cynyddol ar wasanaethau cefnogi TGCh.

39. Pwysleisiodd Equity bod y gwaith a wnaed gan yr UE ar atgyfnerthu hawliau eiddo deallusol ar gyfer perfformwyr yn dylanwadu'n sylweddol ar ddiogelu ein diwydiant creadigol a diogelu hawliau ac incwm perfformwyr. Fe wnaethon nhw ysgrifennu ei bod hi'n hanfodol i'r DU allu dylanwadu ar ddatblygiadau hawlfraint ar lefel Ewropeaidd.³⁴

Llywodraeth Cymru

40. Clywodd y Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau mynediad parhaus i'r Farchnad Sengl a fframwaith rheolaethol unigol ar gyfer y rhain yn y diwydiant creadigol. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau y bydd yr un sicrwydd mewn lle unwaith y byddwn wedi ymadael â'r UE, dan Fil Hawlfraint yr UE sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd.³⁵ Dywedodd swyddogion y byddai Fforwm y Gweinidogion ar Negodiadau'r UE yn edrych ar faterion yn ymwneud ag aliniad rheoliadol ar y cyd ar y pethau sylfaenol hynny megis eiddo deallusol a hawlfraint er mwyn ceisio sicrhau trefniant partneriaeth gydag Ewrop sy'n caniatáu mynediad di-dor.³⁶

41. Ymysg ei chwe blaenoriaeth ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru yn galw am fynediad llawn a di-rwystr i'r Farchnad Sengl a chyfranogiad mewn Undeb Tollau.³⁷ Maen nhw'n nodi mai eu strategaeth hyd yn hyn yw Cysylltu gyda DCMS Llywodraeth y DU mewn perthynas â rheoliadau eiddo diwylliannol ac offer statudol newydd.³⁸

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Equity

³⁵ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018, para 114

³⁶ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018, para 117

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

Ein barn ni

Ar hyn o bryd mae diwydiannau creadigol yn y DU yn dilyn yr un rheoliadau ar faterion megis hawlfraint, diogelu eiddo deallusol a thrwyddedu. Mae'n bwysig cofio eu bod yn cynhyrchu cryn refeniw o werthiannau heb dariff i'r farchnad sengl ar gyfer nwyddau. Mae'n anodd dychmygu'r cynyrchiadau ar y cyd Ewropeaidd yn y diwydiant ffilm yn parhau ar lefel tebyg i'w lefel bresennol os yw'r DU yn gadael y Farchnad Sengl.

Mae manteision system reoleiddio gyffredin yn hwyluso'r Farchnad Sengl hon. Mae'r system hefyd yn golygu bod ein hawduron yn derbyn yr un lefel o sicrwydd hawlfraint ar gyfer eu heiddo deallusol a gall ein sefydliadau cenedlaethol gael mynediad at lenyddiaeth Ewropeaidd heb dreth ychwanegol.

Mae'n bwysig bod Cymru yn parhau'n rhan o'r fframwaith rheoleiddiol cyffredin, neu, o leiaf, yn rhan o system cyd-gydnabyddiaeth reoleiddiol.

Argymhelliad 5. Mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, dylai Llywodraeth Cymru barhau i wneud achos dros aros yn rhan o fframwaith rheoliadol cyffredin yn Ewrop. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw diogelwch eiddo deallusol yn cael ei wanhau unwaith y byddwn wedi ymadael â'r UE.

Diogelu'r iaith Gymraeg a dysgu ieithoedd

42. Mae Cymru wedi derbyn cyllid uniongyrchol ac anuniongyrchol gan yr Undeb Ewropeaidd?! sy'n cynorthwyo i gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn awgrymu bod risgiau i'r iaith Gymraeg, yn enwedig o golli'r gefnogaeth uniongyrchol ar ffurf cyllid sy'n effeithio ar ardaloedd sy'n siarad Cymraeg. Er enghraifft, mae nifer fawr o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol yng Ngorllewin Cymru a'r cymoedd sy'n gymwys i dderbyn cyllid strwythurol Ewropeaidd. Yn yr un modd, mae rhai ardaloedd gwledig yng Nghymru hefyd yn elwa o gyllid Strwythurol Ewropeaidd, sy'n cefnogi cymunedau sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cymunedau hyn hefyd yn elwa o'r Gronfa Datblygu Gwledig, cyllid Polisi Amaethyddol Cyffredin Cymru, sy'n cefnogi ffermydd teuluol a'r economi wledig.

43. Galwodd Comisiynydd y Gymraeg ar Lywodraeth Cymru i wneud cynlluniau ar frys i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol o ganlyniad i Brexit, ysgrifennodd:

“Mae'n gwbl allweddol nad yw Brexit yn tanseilio'r ymdrech i greu rhagor o siaradwyr y Gymraeg na'r defnydd a wneir ohoni. Er mwyn

diogelu siaradwyr y Gymraeg, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo sylw i oblygiadau posibl Brexit ar y Gymraeg y tu hwnt i'r sector amaeth..."³⁹

44. Amlygodd hefyd y ffaith bod hawliau siaradwyr y Gymraeg yn deillio o nifer o ffynonellau, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol sy'n seiliedig ar Gonfensiwn yr UE ar Hawliau Dynol. Rhybuddiodd y gallai Brexit effeithio ar allu siaradwyr Cymraeg i dderbyn iawndal os na fydd eu hawliau'n cael eu parchu.⁴⁰

45. Dywedodd Meirion Prys Jones, cyn Brif Weithredwr y Rhwydwaith i Hybu Amrywiaeth Ieithyddol a Bwrdd yr Iaith, nad oedd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi cymunedau gwledig, fel yr amlinellir yn adroddiad "Brexit a'n tir"⁴¹ yn ddigonol er mwyn diogelu'r iaith Gymraeg. Byddai'n dymuno gweld cynnal yr iaith Gymraeg yn cael ei enwi ochr yn ochr â phum egwyddor Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

"Pan ydych chi'n ystyried cymaint o bobl yng ngorllewin, gogledd a chanolbarth Cymru sy'n siarad Cymraeg yn y diwydiant hwn... Mae yna bum prif egwyddor yn y ddogfen hon, ac nid ydy iaith yn un ohonyn nhw. Mae yna sôn yn y ddogfen am elfennau ieithyddol, ac maen nhw'n nodi bod y cymdeithasau yma â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg, ond nid ydy hi'n egwyddor."⁴²

46. Clywodd y Pwyllgor hefyd y gallai astudiaeth o ieithoedd modern yng Nghymru gael ei effeithio gan Brexit. Mae wedi cael ei adrodd fod Cymru'n brin o weithwyr proffesiynol cymwys i fodloni ein hanghenion. Yn ei thystiolaeth, mae'r Athro Gorrara yn cyfeirio at adroddiad gan y Cyngor Prydeinig⁴³ sy'n nodi bod lleihad diweddar mewn darpariaeth ieithoedd modern wedi cuddio prinder athrawon sylfaenol, gyda thystiolaeth bod rhai ysgolion yn dibynnu ar athrawon nad ydynt wedi cymhwyso yn y pwnc i gau'r bylchau.⁴⁴

47. Ar hyn o bryd, mae cyllid Ewropeaidd o'r cynllun Erasmus+ yn ariannu teithiau cyfnewid addysgiadol ar gyfer athrawon a myfyrwyr i wledydd Ewropeaidd. Er enghraifft, yn 2016/17, llwyddodd Cyngor Caerdydd sicrhau €71,000 i gefnogi 38 o athrawon i astudio iaith mewn gwlad dramor. Gyda'i

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiynydd y Gymraeg

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiynydd y Gymraeg

⁴¹ https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-07/brexit-and-our-land-consultation-document_0.pdf

⁴² Pwllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018, para 295

⁴³ https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/language_trends_wales_2016-17_0.pdf

⁴⁴ Dyfynnir yn nhystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Gorrara

gilydd, mae adran Cysylltu Ysgolion Rhyngwladol Cyngor Caerdydd wedi sicrhau cyllid i 129 o athrawon ledled Cymru ddysgu iaith newydd neu wella sgiliau iaith presennol mewn gwlad partner Ewropeaidd dros gyfnod o dair blynedd.⁴⁵ Mae'r Athro Gorrara yn dadlau bod hyn yn gwella hyder ieithyddol yn ogystal â chynyddu dealltwriaeth ddiwylliannol.

48. Disgrifiodd yr Athro Gorrara y cynllun Erasmus+ fel cynllun hanfodol ar gyfer llesiant - llesiant ieithyddol a rhyng-ddiwylliannol Cymru. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd bod cynnydd wedi bod yn yr hyn y mae hi'n ei ddisgrifio fel "linguaphobia" o ganlyniad i Brexit. Disgrifiodd:

"a perception that if you're not an English speaker and you speak other languages, that somehow you're not a fully-fledged part of the community. And certainly, we've seen that in anecdotes around people being abused for speaking other languages in the street, particularly on public transport and elsewhere."⁴⁶

49. Cyfeiriodd hefyd at ddarn o waith ymchwil arfaethedig a gynhaliwyd gan y Cyngor Prydeinig a nododd fod oddeutu traean o'r ysgolion a holwyd yn credu bod Brexit yn cael effaith negyddol ar agweddau rhieni a disgyblion tuag at ieithoedd modern tramor.⁴⁷

Llywodraeth Cymru

50. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor mai eu strategaeth oedd gweithio gydag amaethyddiaeth ac ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd hanesyddol yn cael eu hystyried mewn trefniadau newydd. Amlinellir hyn o fewn "Brexit: Ein Tir":

"Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o ffabrig cymdeithasol rhannau o Gymru wledig. Mae cysylltiadau diwylliannol â ffermio ledled Cymru'n gryf ac mae gan amaethyddiaeth rôl bwysig o ran cynnal y Gymraeg. Yn wir, mae bron i draean yr unigolion mewn sectorau rheoli tir yn siarad yr iaith yn rheolaidd (cyfran uwch nag unrhyw gategori cyflogaeth arall)."

51. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd cynnal lefelau ariannu gwledig presennol i Lywodraeth y DU. Yn Brexit: Diogelu Dyfodol Cymru. Maen nhw'n ysgrifennu:

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Yr Athro Gorrara

⁴⁶ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018, para 262

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Yr Athro Gorrara

“Mae mwy i sicrhau adnoddau na chefnogi'r diwydiant ffermio'n unig... Yn yr ardaloedd gwledig y mae ein hieithoedd, ein diwylliant a llawer o'n traddodiadau fel cenedl yn cael eu cynnal. Yr ardaloedd hynny hefyd fyddai'r cyntaf o bosib i weld effeithiau sylweddol ymadael â'r UE. Mae'n hanfodol i fuddiannau'r ardaloedd gwledig gael eu diogelu a chwarae rhan ganolog wrth i Gymru weithio tuag at ddyfodol y tu allan i'r UE.”

52. Wrth drafod pwysigrwydd parhau i fod yn rhan o'r cynllun Erasmus+ er mwyn cynyddu gallu ieithyddol a chyfnewid diwylliannol, dywedasant:

“Credwn y dylai Cymru, ac yn wir y DU yn gyfan, barhau i gymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid rhyngwladol fel ERASMUS+ a'r hyn fydd yn ei holynu ar ôl ymadael â'r UE... Rydym yn annog cadw'r trefniadau cyfatebol sy'n caniatáu i fyfyrwyr yr UE astudio yn sefydliadau'r DU, ac i'r gwrthwyneb, pan fydd y DU y tu allan i'r UE.”

53. Yn ystod ein cyfarfod, pwysleisiodd swyddogion nad oedd y trafodaethau ar gyllid wedi dechrau yn ddifrifol eto.

Ein barn ni

Clywodd y Pwyllgor y byddai colli cefnogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r iaith Gymraeg ar ôl i ni adael yr UE yn bosibilrwydd. Mae ein cymunedau gwledig wedi derbyn cyllid ers dros bedwar degawd o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Nid yw cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer disodli'r gefnogaeth hon yn blaenoriaethu'r angen i gynnal a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Dylai'r cynigion ar gyfer cymorth ariannol yn gyfnewid am “nwyddau cyhoeddus” gan ein rheolwyr tir gyfeirio'n benodol at y ffaith bod economïau gwledig cryf yn cadw ein hiaith yn fyw.

Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad yn rhai o'n cymunedau ôl-ddiwydiannol mwyaf difreintiedig yng Ngorllewin Cymru. Mae'r ardaloedd hyn wedi elwa o Gronfeydd Strwythurol yr UE. Os yw'r cymunedau hyn yn gweld dirywiad, bydd yn cael effaith negyddol ar nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae angen inni sicrhau bod y rhai sy'n byw yn y cymunedau hyn, sy'n cynnwys mwyafrif o siaradwyr Cymraeg, yn parhau i gael mynediad at gyflogaeth a chyfleoedd y mae'r gefnogaeth hon wedi eu darparu.

Mae angen gwell dealltwriaeth arnom o effaith Brexit ar siaradwyr Cymraeg a'n cymunedau Cymraeg eu hiaith i gynllunio ar gyfer cryfhau hyfywedd ein hiaith.

Clywsom hefyd fod y refferendwm wedi effeithio ar agweddau tuag at ddiwylliannau eraill a faint sy'n dysgu ieithoedd modern. Mae'n hanfodol ein bod yn hyrwyddo Cymru fel cenedl amlddiwylliannol ac amlieithyddol. Bydd agweddau negyddol tuag at ddysgu iaith a lleihad mewn sgiliau ieithoedd modern yn gadael Cymru mewn sefyllfa wannach ar yr union adeg y mae arnom angen y sgiliau hyn i gynyddu ein masnach ryngwladol.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad risg ar effaith Brexit ar gymunedau sy'n siarad Gymraeg; yr iaith Gymraeg a dysgu iaith mewn ysgolion a phrifysgolion yng Nghymru.

Safle Rhyngwladol Cymru a chyfranogiad mewn rhwydweithiau

54. Clywodd y Pwyllgor y bydd gadael yr UE yn lleihau cyfleoedd i Gymru godi ei broffil ar y llwyfan rhyngwladol. Mae'r gweithgareddau hyn sy'n amlygu ein cryfderau diwylliannol ac academaidd yn mynd yn bell i ddenu twristiaeth a buddsoddiad.

55. Er enghraifft, ysgrifennodd Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain fod y cerddorfeydd wedi cyfrannu at uchelgais Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ar gyfer 'pŵer meddal' a chyfnewid diwylliannol.⁴⁸ Ysgrifennodd Llenyddiaeth Cymru:

"Limiting access to long-established European networks and funding programmes in the culture, education and research sectors would isolate Wales further, damage its ability to perform and deliver and would likely stop new opportunities in culture, creative industries, film and TV and limit Wales' global reach. It would make Wales less visible to the rest of the world, at a time when more should be done to raise visibility and awareness for Wales and the Welsh language."⁴⁹

56. Galwodd Cyngor Llyfrau Cymru ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i baratoi ar gyfer colli mynediad at y llwyfan rhyngwladol:

"Yn hanesyddol, roedd Cymru'n cael ei gweld fel aelod unigryw a phenodol o'r teulu Ewropeaidd o genhedloedd bach; ond yn awr fe'i

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cerddorfaoedd Prydain

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Llenyddiaeth Cymru

gwelir fel rhan o Brydain. Mae angen i Lywodraeth Cymru baratoi ar gyfer sut y bydd yn parhau i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan unigryw.”⁵⁰

Cyfleoedd rhwydweithio Ewropeaidd

57. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth o bwysigrwydd rhannu arbenigedd trwy brosiectau cydweithredol â gwledydd Ewropeaidd eraill. Er enghraifft, pwysleisiodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru fod sefydliadau diwylliannol yn elwa o ddysgu cyfoedion, cyfleoedd mewn gwledydd eraill a'r gallu i gydweithio mewn prosiectau, yn ogystal ag elwa'n ariannol o fod yn rhan o brosiectau Ewropeaidd Creadigol.⁵¹

58. Pwysleisiodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru bwysigrwydd parhau o fod yn rhan o rwydweithiau Ewropeaidd megis On the Move, Informal European Theatre Meeting a Culture Action Europe. Roedd hyn ar gyfer manteisio ar gyfleoedd diwylliannol a busnes:

“Mae cyfranogiad Cymru mewn amrediad o rwydweithiau rhyngwladol yn parhau i fod yn bwysig. Maent yn darparu dealltwriaeth a gwybodaeth ynglŷn â marchnadoedd a chyfleoedd rhyngwladol. Bydd gwybodaeth o'r fath yn hollbwysig os ydym am ddylanwadu'r drafodaeth yn y dyfodol a datblygu perthnasau diwylliannol a masnachol newydd gydag Ewrop ac ymhellach.”⁵²

59. Dywedodd Eluned Haf, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, wrth y Pwyllgor ei bod hi'n bwysig iawn i Gymru barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar lefel Ewropeaidd, gan nodi: “os nad ydym ni'n aelodau o'r rhwydweithiau yma, yn arbennig ar ôl tynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd, rwy'n rhagweld trwbl mawr i'n sector ni”.⁵³

60. Disgrifiodd Amgueddfa Cymru'r manteision o rwydweithiau diwylliannol ffurfiol ac anffurfiol megis partneriaeth OpenArch a Rhwydwaith Sefydliadau Amgueddfeydd. Rhoddodd enghreifftiau o'r cyfleoedd dysgu ar gyfer eu staff a'r gallu i arddangos diwylliant Cymreig ar lwyfan rhyngwladol trwy gynnal cynadleddau. Ysgrifennodd:

“we are dependent on partnerships with museums and universities in European countries to help us to interpret them and our historical and

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Llyfrau Cymru

⁵¹ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018, para 175

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

⁵³ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018, para 178

archaeological collections. Our expertise in museology and cultural learning is recognized beyond the UK and links with us are increasingly sought by European colleagues.”⁵⁴

Llywodraeth Cymru

61. Strategaeth Llywodraeth Cymru yw datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau newydd yn Ewrop ac o gwmpas y byd i hyrwyddo diwylliant yng Nghymru, gan weithio gyda'r Cyngor Prydeinig, fforwm Penaethiaid Treftadaeth Ewrop ac eraill.⁵⁵

62. Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â sut ellid cynnal rhwydweithiau'r Amgueddfa, dywedodd swyddogion Llywodraeth wrth y Pwyllgor:

“There’s a plethora of different networks that our partner organisations, such as the museum, are engaged with. Not all of them are EU constructs, some sit outside the EU, and the strong feeling that we get in terms of engagement with the sector is that they are doing everything that they can to maintain those networks going forward, and we’re obviously encouraging that.”⁵⁶

Ein barn ni

Ochr yn ochr â chyfleoedd ariannu, mae Cymru’n elwa’n fawr ar allu cymryd rhan mewn rhaglenni a phartneriaethau Ewropeaidd ar hyn o bryd. Mae’r rhain yn ddefnyddiol er mwyn i’n sefydliadau diwylliannol ennill a chyfnewid gwybodaeth, atgyfnerthu ymchwil academiaidd, dilyn cyfleoedd busnes cydweithredol a gwella proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Mae colli mynediad i’n llwyfan rhyngwladol fel un o gasgliad o wledydd bychain yn yr UE yn golygu y bydd yn rhaid i Gymru weithio’n galetach i gael ei chydabod yn y dyfodol. Dylem barhau i geisio codi ein proffil fel arloeswyr diwylliannol.

Mae mynediad parhaus i gyfleoedd rhwydweithio ffurfiol ac anffurfiol yn bwysig i Gymru gan ei fod yn ceisio cynyddu cydnabyddiaeth o’n cyflawniadau ac archwilio marchnadoedd newydd ar ôl i ni adael yr Undeb Ewropeaidd. Nid yw gadael yr Undeb yn ein hatal rhag cael rôl yn y rhwydweithiau hyn fel aelod rhanbarthol.

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Amgueddfeydd Cymru

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

⁵⁶ Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 18 Hydref 2018, para 73

Rydym ni'n galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad o fanteision aelodaeth o bartneriaethau Ewropeaidd ac archwiliad o'r cyfleoedd ar gyfer parhau i gymryd rhan.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal arolwg o'r manteision "ysgafn" i sefydliadau diwylliannol fod yn aelod o rwydweithiau Ewropeaidd ffurfiol ac anffurfiol a datblygu opsiynau ar gyfer parhau i fod yn aelodau o'r rhwydweithiau hyn i godi proffil ein sefydliadau celfyddydau, treftadaeth a diwylliannol ar y llwyfan rhyngwladol.

Atodiad A

Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

<http://cofnod.cynulliad.cymru/Search/?type=2&meetingtype=445>

Dyddiad	Enw a Sefydliad
18 Hydref 2018	Dafydd Elis-Thomas AC, Y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru Simon Brindle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru Eluned Haf, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru Pauline Burt, Prif Weithredwr, Ffilm Cymru Zelie Flach, Swyddog Ewropeaidd, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru Meirion Prys Jones, Cyn Brif Weithredwr, Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol a chyn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yr Athro Claire Gorrara, Ysgol Ieithoedd Modern, Prifysgol Caerdydd

Cyhoeddwyd galwad am dystiolaeth ar y wefan ar 11 Medi 2018. Gwahoddwyd sefydliadau i amlinellu:

- Effeithiau posibl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar y meysydd sydd o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac o fewn cylch gwaith y Pwyllgor fel yr amlinellir uchod.
- Effeithiau posibl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar y meysydd sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.
- Parodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn y meysydd hyn.

Cafwyd ymatebion ysgrifenedig gan:

Ffilm Cymru

Rhwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop

Sinfonia Cymru

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Llenyddiaeth Cymru

Llywodraeth Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Grŵp Amgylchedd Hanesyddol Is-Grŵp Trawsnewid yr Undeb Ewropeaidd

Cyngor Llyfrau Cymru

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Ysgol Ieithoedd Modern Caerdydd

Cynhyrchwyr Annibynnol Cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Equity
